

## PWYLLGOR CRAFFU BYW'N IACH A GOFAL CYMDEITHASOL

Cofnodion cyfarfod o Bell a gynhaliwyd ar 8 Hydref, 2024.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol:); Y Cynghorydd N.C. Thomas (Is-Gadeirydd yn y Gadair);  
Cynghorwyr C.A. Cave, A.M. Collins, C.M. Cowpe, R.E. Godfrey, S. Lloyd-Selby,  
J. Lynch-Wilson, J.M. Norman a C. Stallard

Hefyd yn bresennol: G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles) ac  
E. Williams (Aelod Cabinet Gofal Cymdeithasol ac Iechyd).

### 457 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrdd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

### 458 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr J.E. Charles (Cadeirydd), ac I.R. Buckley.

### 459 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Medi, 2024 fel cofnod cywir.

### 460 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

### 461 DIWEDDARIAD AR WEITHGOR CANOLFANNAU HAMDDEN PWYLLGOR CRAFFU BYW'N IACH A GOFAL CYMDEITHASOL – DIWEDDARIAD LLAFAR –

Roedd yr Is-gadeirydd yn falch o adrodd bod aelodau Gweithgor y Ganolfan Hamdden wedi gallu ymweld â Chanolfan Hamdden Penarth ar 17 Medi i arsylwi'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r to sydd wedi'i drwsio a'r paneli solar sydd wedi'u gosod.

Ychwanegon nhw ei bod yn braf gweld bod y gwaith i'r to wedi'i gwblhau ar amser ac o fewn y gyllideb a ragwelwyd yn ogystal â chynnydd cyson yn aelodau'r ganolfan hamdden ac yn nifer yr ymwelwyr â hi ers y pandemig cenedlaethol.

Yn ogystal, diolchodd y Rheolwr Gweithredol ar gyfer Gwasanaethau Cymdogaeth, Byw'n Iach a Pherfformiad i aelodau'r Gweithgor am eu presenoldeb a hefyd ymestyn diolch i staff y safle a staff o Legacy Leisure a oedd wedi gweithio'n ddiflino i sicrhau bod y prosiect yn tarfu cyn lleied â phosibl ar gwsmeriaid.

ARGYMHELLWYD – Y DYLID nodi'r wybodaeth ddiweddaraf am ymweliad safle Gweithgor Canolfan Hamdden y Pwyllgor Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol, fel y darparwyd gan Is-Gadeirydd y Pwyllgor.

### Rheswm dros yr argymhelliad

Rhoi gwybod i'r Aelodau a'r cyhoedd am ganlyniadau'r ymweliad safle a drefnwyd yng Nghanolfan Hamdden Penarth ar 17 Medi, 2024.

### 462 DIWEDDARIAD BLYNYDDOL Y TÎM DIOGELU RHAG COLLI RHYDDID (CGC) –

Cyflwynodd y Rheolwr Gweithredol ar gyfer Diogelu a Chanlyniadau Gwasanaeth yr adroddiad, a'i ddiben oedd rhoi trosolwg a chrynodeb o'r gweithgaredd o fewn y tîm Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (TDAR) a thynnu sylw at y problemau o ran adnoddau a chapasiti a oedd wedi arwain at gynnwys y maes gwaith hwn ar y gofrestr risgiau corfforaethol.

Dywedodd y Swyddog fod y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid a oedd i fod i gymryd lle fframwaith cyfreithiol TDAR yng Nghymru a Lloegr, wedi'u gohirio am gyfnod amhenodol. Er gwaethaf y gohiriad, roedd y newidiadau a awgrymwyd yn rhoi cyfle i'r gwasanaeth ystyried effeithiolrwydd y gweithdrefnau a'r prosesau cyfredol. Penodwyd rheolwr tîm newydd ganol 2024 ac roedd y rheolwr newydd wedi goruchwyllo newidiadau ym mhrosesau data a pherfformiad y Cyngor. Felly, bwriad y Cyngor oedd defnyddio newidiadau diweddar i lywio dadansoddiad thematig yn y dyfodol, gyda chefnogaeth gan ei dîm gwbyodaeth busnes.

Parhaodd y Cyngor i weld cynnydd yn nifer y ceisiadau sy'n cael eu derbyn o flwyddyn i flwyddyn. Yn ystod camau cynllunio'r fframwaith newydd arfaethedig (y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid), derbyniwyd cyllid blynyddol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o geisiadau. Cafodd hyn effaith gadarnhaol ar y gallu i asesu ceisiadau ac roedd ôl-groniadau wedi gostwng yn sylweddol ers hynny. Roedd Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar gyllid parhaus ar gyfer 2023/24 ac wedi nodi y byddai cyllid pellach ar gael ar gyfer 2024/25.

Yn dilyn cyflwyniad y Swyddog o'r adroddiad, cyfeiriodd y Cynghorydd Stallard at yr oedi yn y fframwaith Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid newydd a gofynnodd am effaith hyn ar Gyngor Bro Morgannwg. Mewn ymateb, ailadroddodd y Swyddog fod y fframwaith newydd arfaethedig wedi'i ohirio am gyfnod amhenodol ac nad oedd hyn yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd. Fodd bynnag,

roedd Cyngor Bro Morgannwg eisoes wedi gwneud rhai elfennau o'r gwaith wrth baratoi ar gyfer rhoi'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid newydd ar waith, y gellid eu defnyddio a'u datblygu. Roedd cryn dipyn o gynllunio wedi digwydd hyd yma ac felly nid oedd hyn wedi bod yn ofer.

Yna nododd y Cynghorydd Lloyd-Selby ei bod yn dda gweld bod ôl-groniad y ceisiadau wedi lleihau ond holodd pa oblygiadau posibl oedd ynghlwm ar gyfer unigolion oedd yn aros am ymateb i gais. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Gweithredol mai'r statws presennol oedd y byddai unigolyn yn cael ei amddifadu o'i ryddid ac nad oedd fframwaith cyfreithiol ar waith i gefnogi'r amddifadedd hyn. Fodd bynnag, roedd y Cyngor yn parhau i gyfathrebu'n dda iawn â phartneriaid a gweithredodd yn unol â'r matrices blaenoriaethu ADS a oedd yn offeryn cenedlaethol. Hefyd, pe bai amgylchiadau gofal unigolyn yn newid yna roedd gan yr unigolyn yr hawl i adolygiad a herio.

Fel cwestiwn atodol, gofynnodd y Cynghorydd Lloyd-Selby ynghylch y goblygiadau i Gyngor Bro Morgannwg lle roedd hawliau unigolyn yn cael eu hamddifadu'n anghyfreithlon a sut y cafodd y broses honno ei datrys. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Gweithredol y gallai unigolyn herio'r Cyngor trwy Gyngor Caerdydd neu'r Bwrdd Iechyd Prifysgol, ond nid oedd Bro Morgannwg wedi derbyn her gyfreithiol drwy'r naill ffordd na'r llall hyd yma. Mae bob amser wedi bod yn her i'r tîm reoli nifer y ceisiadau sy'n dod i law gan fod y rhain yn fwy na'r adnoddau oedd ar gael i ymateb iddynt. Ymdriniwyd ag unigolion a oedd yn gwrthwynebu drwy'r prosesau cyfreithiol perthnasol.

Yna holodd y Cynghorydd Lloyd-Selby pa eiriolaeth annibynnol oedd ar gael i unigolion y penderfynwyd y dylid eu hamddifadu o'u rhyddid. Fel pwynt atodol, awgrymodd y Cynghorydd Lloyd-Selby hefyd fod angen cynnwys mwy o fanylion am broffil unigolion y mae'r adroddiad yn ymwneud â nhw'n uniongyrchol yn natganiad nesaf yr adroddiad i helpu'r Aelodau i ddeall cyd-destun unigolion yr effeithiwyd arnynt yn uniongyrchol.

Mewn ymateb, cadarnhaodd y Rheolwr Gweithredol mai'r garfan o unigolion yr oedd yr adroddiad yn ymwneud â hwy oedd y rhai nad oedd ganddynt alluedd, dan 18 oed a 18 oed a hŷn, ac roedd yn hapus i gytuno i awgrym y Cynghorydd Lloyd-Selby am y newidiadau i ddatganiadau o'r adroddiad yn y dyfodol. Mae gan bob unigolyn yr hawl i Gynrychiolydd Perthnasol (y term ffurfiol ar gyfer y math hwn o eiriolaeth) a ddarperir i bob unigolyn a allai fod yn gwrthwynebu ei ofal a chefnogaeth mewn lleoliad. Byddai'r pwynt hwn hefyd yn cael ei ychwanegu at gyflwyniad nesaf yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor.

I gloi, diolchodd y Cynghorydd Godfrey i'r swyddogion am ei gwneud yn glir nad oedd unrhyw hawliadau wedi'u gwneud yn erbyn Cyngor Bro Morgannwg hyd yma yn ogystal â nodi'n glir y broses ymgeisio a'r ystadegau yn yr adroddiad a gyflwynwyd.

Heb unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, mae'r Pwyllgor wedi hynny

## ARGYMHELLWYD –

(1) Y DYLID nodi goblygiadau parhaus dyfarniad Gorllewin Swydd Gaer o ran trefniadau ar gyfer Diogelu oedolion nad ydynt yn gallu cydsynio i'w hanghenion gofal a llety.

(2) Y DYLID cyfeirio'r adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w ystyried.

### Rhesymau dros yr argymhellion

(1) O ystyried cynnwys yr adroddiad ar oblygiadau parhaus dyfarniad Gorllewin Swydd Gaer o ran trefniadau ar gyfer Diogelu oedolion nad ydynt yn gallu cydsynio i'w llety a threfniadau gofal a chymorth a'r risg i'r Cyngor o her gyfreithiol lle ni chaiff amserlenni statudol eu bodloni.

(2) Diweddaru Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar y cynnydd a wnaed gyda'r ôl-groniad o geisiadau a pherfformiad a gweithgaredd y Tîm DoLS yn ystod 2023/24.

## 463 TRACIO ARGYMHELLION CHWARTER 1AF AC 2IL 2024/25 AC ATODLEN DIWEDDARU RHAGLEN GWAITH CYCHWYNNOL Y PWYLLGOR 2024/25 (CAC) –

Ar ran yr Is-gadeirydd, cyflwynodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r Aelodau am gynnydd mewn perthynas ag argymhellion hanesyddol y Pwyllgor Craffu ac amserlen y Flaenraglen Waith wedi'i diweddaru ar gyfer 2024/25.

Dywedodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu ei bod yn amserol cyfuno'r adroddiadau olrhain Chwarter 1 a 2 oherwydd yr amserlen fer rhwng adroddiadau Ch4 a Ch1 a drefnwyd ym mis Mai a Gorffennaf 2024 yn y drefn honno. Felly, roedd y camau gweithredu o dan Atodiadau A a B yr adroddiad yn ymdrin â dau chwarter a nodwyd pob cam gweithredu â statws "wedi'i gwblhau". Ychydig iawn o lithriad adroddiad hefyd oedd ar Flaenraglen Waith y Pwyllgor o Chwarter 1 i Chwarter 2.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor gytuno ar gamau gweithredu'r argymhellion a restrwyd yn Atodiad A a B i'r adroddiad yn ogystal â chymeradwyo Blaenraglen Waith arfaethedig y Pwyllgor i'w lanlwytho i'r wefan gyhoeddus, fel y'i cynhwyswyd yn Atodiad C i'r adroddiad.

Ar ôl i'r Swyddog gyflwyno'r adroddiad, atgoffodd yr Is-gadeirydd Aelodau'r Pwyllgor fod yr adroddiad a gyflwynwyd dan berchnogaeth y Pwyllgor ac felly croesawyd unrhyw awgrymiadau o ran ychwanegu, dileu neu ddiwygio rhannau o'r adroddiad ac y gellid eu codi gyda Chadeirydd y Pwyllgor ar unrhyw adeg.

Yna cododd y Cynghorydd Cave bryder ynghylch y gwahanol bwyntiau llithriad a nodwyd trwy'r Flaenraglen Waith ac, mewn ymateb, dywedodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu fod llithriad adroddiad ar gyfer y Pwyllgor yn

fach iawn ac fel arfer yn cael ei gywiro o fewn yr un chwarter. Gallai enghreifftiau o'r rhain fod yn gysylltiedig ag absenoldeb Swyddogion neu oedi cyn cael cyfeiriadau disgwylidig gan bwyllgorau eraill. Fodd bynnag, oherwydd ymdrechion penodol swyddogion sy'n cefnogi'r Pwyllgor, ni fu unrhyw lithriad adroddiad o'r flwyddyn Ddinesig flaenorol i'r flwyddyn bresennol ac roedd yr holl adroddiadau disgwylidig wedi'u trefnu fel y bo'n briodol. Yn ogystal, nododd yr Is-gadeirydd ei fod ef a Chadeirydd y Pwyllgor yn ystyried ac yn monitro cynnydd yn rheolaidd yn erbyn Blaenraglen Waith y Pwyllgor mewn cynadleddau agenda.

Heb unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, mae'r Pwyllgor wedi hynny

#### ARGYMHELLWYD –

- (1) CYTUNO ar statws y camau gweithredu a restrir yn Atodiadau A a B i'r adroddiad.
- (2) CYMERADWYO'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol wedi'i diweddarau ar gyfer 2024/25, sydd ynghlwm yn Atodiad C yr adroddiad, a'i lanlwytho i wefan y Cyngor.

#### Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Gan roi sylw i gynnwys yr adroddiad er mwyn parhau i olrhain argymhellion y Pwyllgor yn effeithiol.
- (2) Er gwybodaeth i'r cyhoedd.